

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Chwefror 4ydd 2020 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Maldwyn Jones, Gwynedd Jones, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Alwyn Jones, Gary Thomas, Gwenda Morris, Bethan Thomas a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Meilir Jones, Dewi Pritchard, Gwenda Evans, Iolo Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb Cyngor Gwynedd a'r Asiantaeth Cefnffyrdd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Gwrych gyferbyn a Tŷ Isaf, Llandderfel – roedd Arolygwr Priffyrdd Cyngor Gwynedd wedi gofyn i Tillhill i'w dorri.

ii) Dwr yn dod i'r ffordd ym mhentref Sarnau i gyfeiriad Caerau - eglurwyd fod y dŵr yn dod o dir preifat ac roedd llythyr wedi cael ei anfon i'r tîrfeiddiannwr yn gofyn iddynt ddelio gyda'r broblem. Gofynnwyd i'r cynghorwyr lleol gadw golwg ar y sefyllfa a thynnu lluniau o'r dŵr er mwyn dangos i Gyngor Gwynedd pa mor ddrwg oedd y broblem.

iii) Ail osod carreg y cylfat ger mynedfa Hengaer, Glanrafon – cafwyd cadarnhad gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd fod caead newydd wedi cael ei archebu ac y byddai cael ei osod cyn gynted a phosib.

iv) Polyn trydan ar gyffordd Cefnddwysarn - cafwyd cadarnhad gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd eu bod wedi ail gysylltu â SP Energy Network ac a'u bod angen ystyried y mater ymhellach gan fyddai eu symud yn creu costau ac nid oedd oblygiad iddynt wneud hyn. Byddai unrhyw sylwadau pellach yn cael ei basio'n mlaen i'r Cyngor Cymuned cyn gynted a bo modd.

b) Lloches bws newydd Llanfor.

Yn dilyn y drafodaeth flaenorol roedd y Clerc yn dal i aros am adborth ysgrifenedig ynglŷn â'r cynllun gan Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd. Cytunwyd i ofyn i'r Asiantaeth Cefnffyrdd am gadarnhad ysgrifenedig o'r adborth a dderbyniwyd ac o'r canllawiau y byddai angen i'r Cyngor ei ddilyn os byddant yn symud ymlaen i adeiladu'r lloches. Gofynnwyd i'r cler hefyd wneud ymholiadau i weld os fyddai'r Cyngor Cymuned yn gynnwys am unrhyw grantiau cymunedol tuag gostau codi'r lloches.

c) Mabwysiadu Polisiâu Diogelu Data.

Eglurodd y cler eu bod wedi creu canllawiau i ddelio gyda thorcyfraith data ond dim ond enghreifftiau a chanllawiau Saesneg oedd ar gael. Gofynnwyd i'r cler eu cyfieithu i'r Gymraeg. Cytunwyd i'w mabwysiadu pan fyddant wedi eu cwblhau.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Derbyniwyd e-bost ynglŷn â chyflwr wal Neuadd Sarnau. Cytunwyd i'w yrru'n mlaen i bwyllgor y neuadd.

ii) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd ar gyfer mis Chwefror.

b) Amrywiol.

i) Cais am wybodaeth gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y clerc eisoes wedi gyrru'r cofnodion a ofynnwyd am yn wreiddiol a chytunwyd i yrru'r wybodaeth ychwanegol yn unol â'r ymholiad pellach.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

C20/0045/04/LL – Adeiladu ystafell de, ar bwys y ty, ond ar gyfer defnydd masnachol. Caerau Uchaf, Sarnau.

C19/1205/04/CR – Addasiadau mewnol ac allanol i adeilad allanol. Derfel Cadarn, Llandderfel.

C19/1209/04/LL - Newid defnydd o ardd ddomestig i barcio cyhoeddus a newid defnydd o gyn-doiledau cyhoeddus i doiled cyhoeddus a storfa ddomestig. Cyn-doiledau cyhoeddus a thir cyfagos, Llandderfel.

Yng nghysylltiedig â chais cynllunio cyn-doiledau cyhoeddus Llandderfel derbyniwyd llythyr gan berchnogion yr adeilad a'r tir yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned i'r cynllun. Mynegwyd cefnogaeth y Cyngor i'r cynllun gan fod prinder safleoedd parcio ar y Sgwâr wedi bod yn destun trafodaeth dros y blynyddoedd. Yn y llythyr soniwyd hefyd am gefnogaeth ariannol tuag gostau cynnal a chadw'r toiledau. Cyn trafod y mater ymhellach cytunwyd y byddai'n rhaid i'r Gyngor dderbyn adroddiad manwl o'r amcan gostau a'r sut y byddai'r cynllun yn cael ei redeg

vi) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

b) Penodi Archwiliwr Mewnol a Ffioedd Archwilio 2019-20.

Cytunwyd yn unfrydol i benodi Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon eleni. Gofynnwyd i'r clerc anfon y llythyr ymrwymiad arferol iddynt.

c) Cynllun Pensiwn Gweithle.

Eglurodd y clerc y camau priodol a oedd angen eu dilyn i gydymffurfio a'r ddeddfwriaeth newydd i ail gofrestru staff mewn cynllun pensiwn gweithle. Cytunwyd i anfon llythyr yn egluro opsiynau priodol i'r clerc.

ch) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Ad-daliad i'r clerc (Cofrestr i'r fynwent), Partneriaeth Penllyn (costau gweinyddol).

d) Ceisiadau ariannol

i) Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Ambiwylans Awyr Cymru, Ysgol Ffridd y Llyn, Cantref, CFFI Meirionnydd, Theatr Bara Caws, Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Llen y Llannau, Ysgol Bro Tryweryn, Eisteddfod Llandderfel. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

ii) Derbyniwyd cais ariannol gan Wasanaeth OWL Cymru. Eglurodd y clerc eu bod wedi colli cefnogaeth ariannol yn ddiweddar ac yr unig ffordd y gallant gadw'r gwasanaeth i'r un lefel oedd os fyddai'r cynghorau cymuned a thref yn gallu cyfrannu'n ariannol. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd fod y swm a ofynnwyd am yn rhy uchel a bod yr un wybodaeth ar gael mewn manau eraill.

vii) Materion lleol.

a) Roedd y clerc wedi derbyn cwyn fod dŵr yn llifo ar y ffordd ger Pentre, Cefnddwysarn a hefyd ar yr B4401, ger Llwynbrain, Cwmtirmynach. Roedd Arolygwr Priffyrdd Cyngor Gwynedd wedi ymweld â'r safleoedd yn syth ac wedi clirio'r draeniau i glirio'r dŵr. Roedd bwriad ysgubo ffordd Pentre, Cefnddwysarn i glirio unrhyw ddail ayyb.

b) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

i) Ffogydd/draeniau angen eu clirio ar y ffordd o bentref Llandderfel i gyfeiriad Henblas a Cae Pant ac ar y ffordd o bentref Llanfor i fyny i Llwyn Ci.

ii) Cais am olau stryd ychwanegol ger y neuadd yn Sarnau.

iii) Pridd o glawdd ochr uchaf y ffordd rhwng Penisarmynydd a Ty'n Ffridd, Glanrafon wedi disgyn i'r ffordd.

iv) Tyllau yn y darn ffordd ger maes parcio Ysgol Bro Tryweryn.

v) Sbwriel ar ochr yr A494.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 3ydd yn Neuadd Mynach am 7.30 y.h.